


arts award

Llyfryn Blynyddol

2020-2021

TRINITY COLLEGE LONDON

ARTS COUNCIL ENGLAND



‘Mae Arts Award mor fuddiol ac mae’n eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau mewn sawl ffordd. Mae’n gymhwyster gwerth chweil i’w gael ac mae wir yn sefyll allan ar eich CV.’

Jayden, Enillydd Arts Award Aur

Darparu Sgiliau ar gyfer y 21ain ganrif

Mae Arts Award yn set unigryw o gymwysterau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc 25 oed ac iau i fwynhau'r celfyddydau a datblygu fel artistiaid ac arweinwyr celfyddydau. Mae pobl ifanc sy'n cwblhau Arts Award yn ennill sgiliau creadigol, arweinyddiaeth, meddwl myfyriol a chyfathrebu sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant ym mywyd yr 21ain ganrif.

Mae hanner miliwn o wobrau wedi'u cyflawni ar draws pum lefel – Darganfod, Archwilio, Efydd, Arian ac Aur – ers lansio Arts Award yn 2005.

Yn Lloegr, rheolir Arts Award gan Trinity College London ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Lloegr sy'n gweithio gyda 10 sefydliad Pontio rhanbarthol.

Clawr: The King's School, Worcester *llun* George Archer
Clawr mewnol: National Youth Dance Company *llun* Kirsten Holst

Creadigrwydd am oes

Mae pum maes allweddol lle canfuwyd bod Arts Award yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc, fel y dangosir drwy ganlyniadau ein hastudiaeth effaith tair blynedd* dan arweiniad London South Bank University.

Sgiliau bywyd	O'r nifer o effeithiau cadarnhaol y gall Arts Award eu cael ar bobl ifanc, maes allweddol yw datblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith, megis hyder, arweinyddiaeth a sgiliau trefnu.
Achrediad	Mae Arts Award yn gymhwyster uchel ei barch a chyffredinol, wedi'i seilio ar ymagweddau cadarn at addysgu a dysgu.
Dewis y celfyddydau	Mae Arts Award yn dylanwadu ar ddewis cwrs pobl ifanc ac yn cefnogi ceisiadau llwyddiannus ar gyfer astudiaeth bellach.
Sgiliau entrepreneuraidd	Mae cwblhau Arts Award yn annog sgiliau dysgu annibynnol, creadigrwydd a chyfathrebu; pob un yn hanfodol ar gyfer gyrfa fel gweithiwr llawrydd neu entrepreneur celfyddydau neu ar gyfer gyrfaoedd y tu hwnt i'r celfyddydau.
Creadigrwydd am oes	Mae Arts Award yn datblygu pobl ifanc o bob cefndir i fod yn artistiaid creadigol ac arweinwyr celfyddydau, gan feithrin eu dealltwriaeth o lwybrau i addysg a chyflogaeth yn y sector creadigol a diwylliannol.

*Bu ymchwilwyr yn olrhain 68 o bobl ifanc dros ddwy flynedd yn ystod ac ar ôl eu cysylltiad ag Arts Award. Cynhaliwyd arolwg o bron i 400 o gyfranogwyr Arts Award a chyfweliadau â chyn-fyfyrwyr Arts Award. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar y lefel Efydd, Arian ac Aur. Am ragor o wybodaeth ewch i **artsaward.org.uk/impactstudy**



BALTIC Centre for Contemporary Art *llun* Colin Davison

“Helpodd fy nghymhwyster Arts Award fi i sylweddoli bod gennyf frwdfrydedd dros rywbeth, mae wir i’w weld yn y gwaith celf rwy’n ei greu.”

James, Enillydd Arts Award Arian

Pa lefel sy'n iawn i bobl ifanc?

Dyluniwyd Arts Award i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau a'u diddordebau yn y celfyddydau, gan adeiladu eu gwybodaeth wrth iddynt symud ymlaen drwy'r lefelau. Gall pobl ifanc ddechrau ar unrhyw lefel ac mae cynghorwyr yn pennu'r man cychwyn gorau drwy ystyried anghenion a galluoedd eu grŵp.

Mae fframwaith hyblyg Arts Award yn golygu y gall pobl ifanc weithio ar draws ystod o weithgareddau a phrosiectau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys rolau creadigol a thechnegol.

Arts Award Darganfod

20 awr o oriau dysgu dan arweiniad (argymelledig)
Mae Arts Award Darganfod wedi'i gynllunio ar gyfer plant 5 oed a throsodd, ond mae'n agored i unrhyw un 25 oed ac iau

Dechrau'r antur gelfyddydol! I ennill Arts Award Darganfod rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol
- profi gwaith artistiaid neu grefftwyr
- rhannu eu darganfyddiadau celfyddydol

Am ragor o wybodaeth ewch i: artsaward.org.uk/discover

Arts Award Archwilio

(Rhif cymhwyster 600/3894/9) Lefel Mynediad (Mynediad 3) ar y RQF*
25 awr o oriau dysgu dan arweiniad + 10 awr o ddysgu annibynnol = 35 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Dyluniwyd Arts Award Archwilio ar gyfer plant 7 oed a throsodd ond mae'n agored i unrhyw un 25 oed ac iau

Archwilio'r celfyddydau a chael eich ysbrydoli! I ennill Arts Award Archwilio rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol
- archwilio gwaith artistiaid neu grefftwyr a sefydliadau celfyddydol
- creu gwaith celf
- rhannu eich archwiliad

Am ragor o wybodaeth ewch i: artsaward.org.uk/explore

*RQF = Fframwaith Cymwysterau Rheoledig

Arts Award Efydd

(Rhif Cymhwyster 501/0081/6) Lefel 1 ar y RQF*
40 awr o oriau dysgu dan arweiniad + 20 awr o ddysgu annibynnol = 60 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Dyluniwyd Gwobr Arts Award Efydd ar gyfer plant rhwng 11 a 14 oed ond mae'n agored i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Cymryd rhan yn y celfyddydau a rhannu sgiliau newydd! I ennill Arts Award Efydd, rhaid i bobl ifanc:

- gymryd rhan yn y celfyddydau
- adolygu digwyddiad neu brofiad celfyddydol
- ymchwilio i artist neu grefftwr
- trosglwyddo sgiliau celfyddydau i eraill

Am ragor o wybodaeth ewch i: artsaward.org.uk/bronze

Arts Award Arian

(Rhif cymhwyster. 500/9914/0) Lefel 2 ar y RQF*
60 awr o oriau dysgu dan arweiniad + 35 awr o ddysgu annibynnol = 95 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Mae Gwobr Arts Award Arian wedi'i dylunio ar gyfer pobl ifanc 14 oed a hŷn, ond mae'n agored i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Ymgymryd â her ac arwain eraill! Mae gan y cymhwyster Arts Award Arian ddwy uned: ymarfer celfyddydau, llwybrau ac arweinyddiaeth y celfyddydau.

I ennill Arts Award Arian, rhaid i bobl ifanc:

- gynllunio, cwblhau ac adolygu her gelfyddydol
- adolygu digwyddiadau celfyddydol a rhannu eu barn
- ymchwilio i yrfaoedd yn y celfyddydau
- datblygu sgiliau arwain drwy gynllunio, cyflwyno ac adolygu prosiect celfyddydol

Am ragor o wybodaeth ewch i: artsaward.org.uk/silver

Arts Award Aur

(Cymhwyster Rhif 500/9666/7) Lefel 3 ar y RQF* 16 o bwyntiau UCAS
90 awr o oriau dysgu dan arweiniad + 60 awr o ddysgu annibynnol = 150 awr cyfanswm amser y cymhwyster. Mae'r cymhwyster Arts Award Aur wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc 16 oed a throsodd ond mae'n agored i unrhyw un rhwng 11 a 25 oed

Datblygu sgiliau celfyddydau ac arwain y ffordd! Mae gan Arts Award Aur ddwy uned: datblygiad celfyddydau personol ac arwain prosiect celfyddydol.

I gyflawni Arts Award Aur, rhaid i bobl ifanc:

- ehangu eu hymarfer celfyddydau, profi ffurf arall ar gelfyddyd a chreu gwaith newydd
- cymryd rhan yn y byd celfyddydol drwy leoliadau, gwirfoddoli, hyfforddiant ac ymchwil
- adolygu digwyddiadau celfyddydol a dysgu mwy am artistiaid neu grefftwyr a'u llwybrau gyrfa
- ymchwilio i fater yn ymwneud â'r celfyddydau a dadlau'r achos o'i blaid
- datblygu sgiliau arwain drwy gymryd cyfrifoldeb unigol am gynllunio, cyflwyno ac adolygu prosiect celfyddydol a'i rannu'n gyhoeddus

Am ragor o wybodaeth ewch i: artsaward.org.uk/gold



Museum of Zoology – University of Cambridge
Ilun Caroline Bray



Abbey Catholic Primary School *Ilun* Kirsten Holst

*RQF = Regulated Qualifications Framework

Sut i baratoi ar gyfer, cynllunio a chyflwyno Arts Award

Mae pobl ifanc yn gweithio tuag at Arts Award drwy ganolfan. Gall canolfannau fod yn theatrau, orielau celf, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, ysgolion, colegau, clybiau ieuenctid, neu sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Maent yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Arts Award ac yn goruchwylio gwaith y cynghorwyr.

Mae cynghorwyr Arts Award yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu arweiniad ac asesu eu gwaith. Gall cynghorwyr fod yn athrawon, ymarferwyr celfyddydau, gweithiwyr ieuenctid, gwirfoddolwyr neu aelodau o dimau dysgu. Mae angen iddynt fod â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a mynediad i gyfleoedd celfyddydol, ond nid oes rhaid iddynt fod yn arbenigwyr celfyddydol.

I ddod yn gynghorydd, trefnwch le ar un o'n cyrsiau dysgu o bell, a ddarperir gydol y flwyddyn.

Ar ôl hyfforddi, gall eich sefydliad gofrestru i ddod yn ganolfan Arts Award. Mae cofrestru yn broses rhad ac am ddim a chyflym. Am ragor o wybodaeth ewch i **artsaward.org.uk/gettingstarted**

Cymorth i ganolfannau a chynghorwyr

Ar ôl yr hyfforddiant, bydd cymorth ar gael i helpu i gyflwyno Arts Award yn llwyddiannus yn cynnwys:

- ystod o adnoddau fel syniadau cyflwyno, offer cynllunio, awgrymiadau ar gyfer safoni ac asesu, ynghyd â'r holl feini prawf a gwaith papur perthnasol: **artsaward.org.uk/resources**
- gweminarau am ddim a sesiynau cefnogi y gallwch eu harchebu ar lein: **artsaward.org.uk/support**
- postiadau blog rheolaidd ar sut all Arts Award weithio'n ymarferol: **artsaward.org.uk/blog**
- mewnwelediadau a gwersi gan Ganolfannau Hyrwyddo Trinity, wedi'u dewis am eu dull arbennig o gyflwyno Arts Award

I gael manylion llawn am yr opsiynau cymorth sydd ar gael ewch i **artsaward.org.uk/adviserhub**

Cymorth ar gyfer pobl ifanc

Gall pobl ifanc gael ysbrydoliaeth o Arts Award Voice, sy'n rhannu profiadau a syniadau ar gyfer Arts Award. Mae'r Hybiau Efydd, Arian ac Aur yn cynnig arweiniad cam wrth gam, astudiaethau achos o gyflawnwyr, cyfweliadau ag artistiaid, enghreifftiau o bortffolios a chynllunwyr y gellir eu lawrlwytho i helpu pobl ifanc i gwblhau eu gwobrau. Gallant bostio blogiau ac adolygiadau ar gyfer Arts Award a chasglu eu postiadau i'w hasesu mewn portffolio syml sydd ynghlwm wrth eu proffil. Mae pobl ifanc hefyd yn cael buddion a chyfleoedd drwy ymuno â chymuned Arts Award Voice. Am ragor o fanylion ewch i **artsawardvoice.com**

Mae Arts Award Voice yn rhan o'r cylchgrawn Voice, sy'n cael ei redeg gan Upstart Projects: **upstartprojects.uk**

Cyflwyno Arts Award

Gellir cyflwyno Arts Award mewn nifer o ffyrdd ac mewn ystod eang o leoliadau. Gallwch ei gysylltu â gweithgarwch presennol neu ei ddefnyddio i ysgogi rhywbeth newydd. Mae Arts Award yn cael eu cyflwyno fel rhan o amser cwricwlwm, neu drwy raglenni allgyrsiol a chyfoethogi, prosiectau amgueddfa neu dreftadaeth, clybiau neu grwpiau wythnosol, a phrosiectau partneriaeth.

Tystiolaeth ac asesiad

Mae pobl ifanc yn creu cofnod neu bortffolio o'u gwaith celfyddydol drwy gasglu tystiolaeth o'u taith gelfyddydol a'u datblygiad sgiliau. Gall y rhain fod ar unrhyw ffurf o arlunio a blogio i ffotograffiaeth a fideo. Ceir enghreifftiau yn **artsawardvoice.com/portfolios**

Ar ôl i bobl ifanc gwblhau eu cofnod neu bortffolio, bydd y gwaith yn cael ei asesu'n fewnol gan y cynghorydd. Yna bydd safonwr allanol yn dilysu'r asesiad hwn drwy safoni (ac eithrio ar lefel Darganfod sy'n cael ei asesu gan gynghorydd yn unig). Mae yna ystod o opsiynau safoni ar gael. Dewiswch opsiwn sy'n addas i chi a'i drefnu ar-lein yn **artsaward.org.uk/moderation**

Partneriaethau

Rydym yn gweithio'n agos gyda llawer o sefydliadau a chyrff cenedlaethol i gynyddu mynediad pobl ifanc i Arts Award, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Balasau Brenhinol Hanesyddol, Plant mewn Amgueddfeydd, Cerddoriaeth Ieuenctid, ac Into Film. Am ragor o fanylion ewch i **artsaward.org.uk/partnerships**

Mae Cronfa Mynediad Arts Award hefyd ar gael i sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan yn y gwobrau. Am ragor o wybodaeth ewch i **artsaward.org.uk/accessfundinfo**

Cost

Hyfforddiant i gynghorwyr (y pen)


Cwrs	Cost (tan fis Awst 2021)
Darganfod ac Archwilio	£150
Efydd ac Arian	£200
Aur	£150

Gallwch gwblhau'r cyrsiau mewn unrhyw drefn, er enghraifft gallwch wneud yr hyfforddiant i gynghorwyr Aur heb gwblhau'r cwrs Efydd ac Arian yn gyntaf.

Safoni/ardystiad (y pen)

Lefel	Cost	Grwpiau o 25 neu fwy	Grwpiau o 50 neu fwy	Grwpiau o 100 neu fwy
Darganfod	£4.00 (tystysgrif yn unig)	£3.85	£3.40	£3.05
Archwilio	£13.75	£12.85	£11.85	£11.25
Efydd	£24.50	£23.50	£22.50	£20.50
Arian	£30.00	£29.00	£28.00	£27.00
Aur	£45.00	£44.00	£43.00	£42.00

Y daith Arts Award



1. Dewiswch eich lefel

Edrychwch ar dudalennau 6-8 i ddysgu mwy am y lefelau a gwerth cymwysterau Arts Award.

2. Hyfforddi a chofrestru

Gallwch hyfforddi aelodau tîm yn y lefelau o Arts Award yr hoffech iddynt eu cyflwyno, yna cofrestru eich sefydliad fel canolfan Arts Award.


3. Cynllunio

Cynllunio cyflwyniad Arts Award. Ewch i'r hwb cynghorwyr i gael adnoddau i gefnogi'ch cynllunio neu i gyrchu ein hystod o opsiynau cymorth un i un fel gweminarau a sesiynau cymorth o bell.

Gallwch archebu cofnodlyfrau celf o artsaward.org.uk/shop

4. Recriwtio

Recriwtiwch bobl ifanc a chreu cyffro o amgylch Arts Award! Anogwch bobl ifanc dros 11 oed i gofrestru ar Arts Award Voice i gael ysbrydoliaeth ac arweiniad ar-lein.


Defnyddiwch adnoddau ar-lein, yn cynnwys cynghorion da ar gyfer safoni a rhestrau gwirio tystiolaeth. Llenwch ffurflen adrodd asesiad cynghorydd ar gyfer pob cofnod neu bortffolio.
6. Paratoi eich asesiad
8. Safoni
Llongyfarchiadau!
Cynnal y sesiwn safoni. Bydd y safonwr yn samplu'r gwaith er mwyn dilysu eich marcio a rhoi adborth. Bydd y canlyniadau'n cael eu cadarnhau gyda chyhoeddi tystysgrif i'r ymgeiswyr llwyddiannus.
Nawr cynlluniwch ar gyfer y garfan nesaf!
5. Adolygu
7. Archebu eich sesiwn safoni
Rydym yn argymell eich bod yn adolygu cynnydd cofnodion a phortffolios y bobl ifanc yn rheolaidd. Archebwch un o'n sesiynau cymorth i gael ychydig o gyngor.
Archebu tystysgrifau (Darganfod) neu weld pa opsiwn safoni sydd orau i chi a'i archebu (Archwilio/Efydd/Arian/Aur).
Yn dibynnu ar y math o safoni a ddewiswch, efallai y bydd angen i chi ganiatáu o leiaf wyth wythnos i drefnu eich sesiwn safoni.

Cysylltwch

Mae'r tîm Arts Award yma i helpu ar bob cam o'r daith, pa un a ydych chi'n bwriadu dechrau arni, cyflwyno'r wobr, trefnu sesiwn safoni neu hyrwyddo'ch rhaglen.


Gwefan Arts Award	artsaward.org.uk
Arts Award Voice	artsawardvoice.com
Arts Award blog	artsaward.org.uk/blog
Canolfan gymorth	artsaward.org.uk/helpcentre
Rhif ffôn	020 7820 6178
E-bost	artsawardenquiries@trinitycollege.co.uk

Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am Arts Award ac ymuno â'r sgwrs ar Twitter a Facebook.

@ArtsAward /ArtsAward

Ar ôl Arts Award

Ar ôl i bobl ifanc gwblhau eu gwobrau, maent yn dod yn alumni Arts Award. Yna os ydyn nhw wedi cofrestru ar Arts Award Voice (gweler tudalen 9) byddwn yn cadw mewn cysylltiad â nhw i gynnig help a chyfleoedd ar gyfer eu cam nesaf ac i broffilio eu llwybr. Mae'r cylchgrawn Voice hefyd yn cynnwys adran yrfaoedd fywiog gyda gwybodaeth a chyngor gan weithwyr proffesiynol i bobl ifanc greadigol. Am ragor o wybodaeth ewch i **artsawardvoice.com/alumni**



15 mlynedd o gefnogi creadigrwydd i ffynnu

Mae Arts Award wedi bod yn cefnogi datblygiad creadigrwydd a sgiliau arweinyddiaeth ers 15 mlynedd! Dyma sut ydym yn dathlu'r garreg filltir bwysig hon.

Ar Arts Award Voice:

- Gall pobl ifanc gael eu hysbrydoli gan gynnydd enillwyr Arts Award cynnar
- Mae Voice yn dangos amrywiaeth y gwaith artistig a gwmpasir gan Arts Award

Am ragor o wybodaeth ewch i artsawardvoice.com

Ar blog Arts Award:

- Gall canolfannau ddysgu gan sefydliadau sydd wedi gwneud Arts Award yn rhan bwysig o'u cynnig
- Gall cynghorwyr gael mynediad at gymorth fel rhan o'n nod i ehangu argaeledd Arts Award Aur

Am ragor o wybodaeth ewch i artsaward.org.uk/blog

Greenfields Specialist School for Communication wedi bod yn cyflwyno Arts Award ers y dechrau
llun Kevin Ricks



Hawlfraint © 2020 Trinity College London
Mae Trinity College London yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (elusen rhif 1014792), a'r Alban (elusen rhif SC049143).

Ark Helenswood Academy *llun* Kevin Ricks